Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

ADRAN DIOGELWCH CYMUNEDOL

HYFFORDDWR CADETIAID TAN
Cyflog: £13.40 yr awr

Mae'r Cadetiaid Tân yn Sefydliad Ieuenctid Cenedlaethol Gwisg a gefnogir gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân ac a gyflwynir gan y Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU ar gyfer pobl ifanc rhwng 13 a 18 oed.

Mae Cadetiaid Tân yn cynnig cyfleoedd cynhwysol hwyliog a heriol i bobl ifanc i ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol drwy weithgareddau sy'n hyrwyddo hunanddisgyblaeth, gwaith tîm a dinasyddiaeth. Mae ein Cadetiaid Tân yn cael y cyfle i weithio tuag at ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol a chyrraedd eu llawn botensial gan gyfrannu at gymunedau mwy diogel, cryfach ac iachach.

Mae'r Gwasanaeth Tân yn darparu patrymau ymddwyn cadarn sy'n ysbrydoli ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar bobl ifanc ac ar hyn o bryd rydym am recriwtio Hyfforddwyr i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer Cadetiaid Tân yn ein Hunedau ar draws Ardal GTADC.

Mae ein Cadetiaid Tân yn cyfarfod yn ystod y tymor am un noson yr wythnos rhwng 18.30 – 20.30. Trefnir y rhaglen o gwmpas blwyddyn cwricwlwm yr ysgol ac mae ein Hunedau ar gau yn ystod yr holl wyliau ysgol.

Mae 12 Uned Cadetiaid Tân a leolir ar draws ardal GTADC fel y rhestrir isod:

Y Fenni	Dydd Iau	Aberbargod	Dydd Mawrth
Y Barri	Dydd Mawrth	Pen-y-bont ar Ogwr	Dydd Llun
Caerffili	Dydd Mawrth	Porth Caerdydd	Dydd Mawrth
Cwmbrân	Dydd Mawrth	Malpas	Dydd Llun
Merthyr Tudful	Dydd Mawrth	y Rhath	Dydd Llun
Tredegar	Dydd Mawrth	Tonypandy	Dydd Iau

Mae contractau unigol ar gael am 50 awr, 75 awr a 100 awr y flwyddyn. Bydd yr oriau dros uchafswm o 40 wythnos o'r flwyddyn.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn amodol ar wiriad cliriad boddhaol gan y Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu a bydd hefyd yn ofynnol i ymgymryd â Hyfforddiant Diogelu perthnasol a mynychu proses Sefydlu Cadetiaid Tân cyn cychwyn.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, y Fanyleb Person a'r Swydd-Ddisgrifiad o Dudalen Swyddi Cyfredol y Fewnrwyd neu drwy law ein gwefan - www.decymru-tan.gov.ukneu drwy gysylltu â

Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX.

Nodwch ar eich ffurflen gais, pob un o'r Unedau yr hoffech gael eich ystyried ar eu cyfer

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni gorffenedig yw **12:00yh** 29/11/2023.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni chaiff ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.